



Twitter: [@PINSgov](https://twitter.com/PINSgov)

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru
<http://gov.wales/topics/planning/appeals/?skip=1&lang=cy>

APÊL CANIATÂD SYLWEDDAU PERYGLUS

Os bydd arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â'n Llinell Gymorth ar 0303 444 5940. **I'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon yn gywir, cyfeiriwch at ein canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru.**

RHYBUDD: Rhaid i'ch apêl gyrraedd yr Arolygiaeth Gynllunio o fewn 6 mis o ddyddiad penderfyniad yr Awdurdod Sylweddau Peryglus
(*NODER: Os na dderbyniwn unrhyw un o'r "Dogfennau ategol hanfodol" a restrwyd yn Adran I o fewn cyfnod yr apêl, ni dderbynnir yr apêl*)

PRINTIWCH YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU

A. APELYDD – Rhaid i enw'r unigolyn (unigolion) sy'n gwneud yr apêl ymddangos fel ymgeisydd ar y ffurflen gais. **Os nad ydyw, ni ellir cofrestru'r apêl.**

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	

B. ASIANT (os oes un) AR GYFER YR APÊL

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Cyfeirnod	

C. AWDURDOD SYLWEDDAU PERYGLUS (HSA)

Enw'r HSA	
Rhif cyfeirnod yr HSA	
Ffurflen gais dyddiedig	
Dyddiad Penderfyniad yr HSA (os yw wedi'i roi)	

D. CYFEIRIAD SAFLE'R APÊL

Cyfeiriad	
Cod Post	

	OES*	NAC OES
A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle, neu gerllaw'r safle y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle? <i>*Os oes, esboniwch yn eich datganiad achos llawn (adran G)</i>		

	OEDD /YDY*	NAC OEDD /NAC YDY
A oedd yr Arolygydd yn gallu gweld y rhannau perthnasol o safle'r apêl yn ddigonol i farnu'r cynnig o dir cyhoeddus?		
A yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd ar y safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau perthnasol eraill? * <i>Os mai 'OEDD/YDY' yw'r ateb, esboniwch isod</i>		

NODER: Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle fel arfer ar ei ben ei hun heb fod yr un o'r ddau barti yno. Ond, os na ellir gweld y rhan berthnasol o'r safle o ffordd neu dir cyhoeddus arall, neu mae'n hanfodol i'r Arolygydd fynd ar y safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau perthnasol eraill, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu mynediad i'r Arolygydd.

	YDY	NAC YDY
A yw'r gwaith yn effeithio ar leoliad adeilad rhestredig?		
A yw safle'r apêl mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol?		
A yw'r safle mewn ardal gadwraeth?		
A yw'r safle o fewn llain las/lletem las?		

E. RHESWM AM YR APÊL

Mae'r apêl hon yn erbyn penderfyniad yr HSA i:

Ticiwch fel bo'n gymwys




1.	Gwrthod caniatâd Sylweddau Peryglus	
2.	Gwrthod dileu neu amrywio amod(au) sydd ynghlwm wrth ganiatâd Sylweddau Peryglus	
3.	Gwrthod rhoi unrhyw ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth a fynnir gan amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd Sylweddau Peryglus blaenorol	
4.	Gwrthod parhad caniatâd Sylweddau Peryglus y gwnaed cais amdano o dan adran 17	
5.	Methiant yr HSA i roi hysbysiad o'i benderfyniad o fewn y cyfnod priodol ar gais am ganiatâd neu gymeradwyaeth	

F. DATGANIAD ACHOS LLAWN

Hwn yw eich **unig** gyfle i gyflwyno'ch dadl mewn cysylltiad â'r rheswm am yr apêl fel y nodir yn adran E. Felly, darparwch eich datganiad achos **LLAWN**. I wneud hyn, mae angen i chi fynd drwy'r rhesymau am y penderfyniad, ac esbonio pam rydych yn anghytuno. Dim ond y rhesymau ym mhenderfyniad yr HSA a'r rhesymau a roddwyd gerbron gennych chi yn y cam gwneud cais ddylid eu cynnwys ar eich ffurflen apêl. Ni ddylech gyflwyno unrhyw resymau newydd am yr apêl. Cyfeiriwch at ein Canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen



G. GWEITHDREFN (gweler y canllaw am ragor o wybodaeth)

Gellir ystyried apeliadau y delir â nhw o dan Rhan 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017 ar sail gweithdrefn sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad, ymchwiliad neu achosion cyfunol. Yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017 rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio wneud penderfyniad ynglŷn â'r weithdrefn. Felly, byddwn yn ystyried eich barn wrth bennu'r weithdrefn. Os rhoddir rhesymau annigonol dros wrandawriad neu ymchwiliad, gallwn fabwysiadu'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

Ticiwch un blwch yn unig

Rwyf o'r farn fod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol.	
Nid wyf o'r farn fod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol am y rhesymau a roddir yn y blwch isod. Rwy'n derbyn mai mater i ddisgresiwn yr Arolygiaeth ydyw o ran p'un ai gwrandawriad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r ddau a gynhelir.	

Os ydych yn teimlo bod angen gwrandawriad neu ymchwiliad, rhowch eich rhesymau llawn isod, gan gynnwys nifer debygol y diwrnodau y teimlwch y bydd y digwyddiad yn para, a faint o dystion y bwriadwch eu galw.

H. COSTAU (gweler y canllaw am ragor o wybodaeth)

	YDW	NAC YDW
A ydych chi'n bwriadu cyflwyno cais am gostau gyda'r apêl hon? <i>Os ydw, rhowch eich achos isod</i>		

Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen

I. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL

Gan ddibynnu ar y math o apêl, **rhaidd** anfon y dogfennau a restrir isod gyda'ch ffurflen apêl. Os na dderbyniwn holl ddogfennau eich apêl erbyn diwedd cyfnod yr apêl, ni fyddwn yn delio â hi.

Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau rydych yn eu hamgáu.



1	Y ffurflen gais a wnaed i'r Awdurdod Sylweddau Peryglus (HSA)	
2	Penderfyniad yr HSA (os oes un)	
3	Yr hysbysiad a'r dystysgrif briodol a ddarparwyd i'r HSA yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau 1992	
4	Y dystysgrif a gyflwynwyd i'r HSA yn unol â Rheoliad 7	
5	Y dystysgrif Rheoliad 13 briodol ar gyfer yr apêl hon. Dylech hefyd amgáu copi o'r Hysbysiad os ydych wedi cwblhau tystysgrif B neu C (gweler Atodiad A ynghlwm). Unrhyw ohebiaeth berthnasol gyda'r ACLI	
6	Pob un o'r cynlluniau, lluniadau a dogfennau a anfonwyd at yr HSA fel rhan o'r cais	
7	Pob gohebiaeth berthnasol arall gyda'r HSA	

8	Cynllun yn dangos y safle, wedi'i farcio'n GOCH, mewn perthynas â dwy ffordd a enwir (gorau oll os yw ar ddetholiad o'r MAP OS 1:10,000 perthnasol)	

Manylion Personol (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

1. Manylion personol yr apelydd

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd	
E-bost	

	Saesneg	Cymraeg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Mae'n well gen i gyswllt drwy'r		

2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (os oes rhai)

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn yn ystod y Dydd	
E-bost	

	Saesneg	Cymraeg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Mae'n well gen i gyswllt drwy'r		



Mae'r broses o gasglu ac wedyn prosesu'r data personol a roddwyd gennych ar y ffurflen hon, yn unol â thelerau ein cofrestrriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar ein gwefan o dan "Polisi Preifatrwydd" (http://planninginspectorate.wales.gov.uk/privacy_policy)

Llofnodwch y ffurflen ar Dudalen 8

LLOFNODWCH ISOD (rhaid i ni dderbyn ffurflenni wedi'u llofnodi gyda'r holl ddogfennau ategol o fewn cyfnod yr apêl)

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen apêl hon a'r holl ddogfennau perthnasol at yr HSA (os na wnewch, ni dderbynnir eich Apêl fel arfer).

Rwy'n cadarnhau bod pob adran wedi'i llenwi yn llawn, hyd y gwn.

Rwy'n deall y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a roddais at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a gall manylion yn cynnwys fy enw, y disgrifiad o'r safle a fy natganiad achos ymddangos ar-lein. Drwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a ddarparaf gael ei defnyddio yn y modd hwn.

Llofnod:

Enw (mewn priflythrennau)

Dyddiad

Ar ran (os yw'n berthnasol)

ANFONWCH

1 COPI atom ni yn:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Llinell Gymorth: 0303 444 5940

Cadwch gopi i'ch cofnodion chi

1 COPI at yr HSA

Anfonwch gopi o'r ffurflen apêl at y cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad penderfyniad ohono (neu at y cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd gan yr HSA).

Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt eto; anfonwch unrhyw ddogfennau ategol na chawsant eu hanfon yn flaenrol fel rhan o'r cais yn unig.

Pan dderbyniwn eich ffurflen apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi a yw eich apêl yn ddilys, pwy sy'n delio â hi a beth sy'n digwydd nesaf.

© Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn atom ni yn y cyfeiriad uchod, neu anfonwch neges e-bost i: wales@pins.gsi.gov.uk

TYSTYSGRIFAU I'W CYFLWYNO O DAN REOLIAD 13

Wrth wneud apêl, bydd angen i chi lenwi tystysgrif newydd yn ymwneud â pherchenogaeth, gan y gall y sefyllfa fod wedi newid ers i'r cais gael ei wneud. Mae'r hysbysiad sydd i'w roi i berchennog wedi'i atodi, ynghyd â thystysgrifau (A) i (D). **Dim ond UN** o'r tystysgrifau (A) i (D) fydd yn bodloni amgylchiadau'r achos a hon fydd angen ei llenwi.

Ystyr 'perchennog' yw unigolyn â buddiant rhydd-ddaliadol neu denantiaeth sydd â chyfnod sy'n weddill o ddim llai na 7 mlynedd.

- Os chi yw **unig berchennog** yr holl dir y mae a wnelo'r apêl ag ef, llenwch **dystysgrif A** a'i hanfon yn ôl.
- Os nad ydych yn **unig berchennog yr holl dir**, dylid dilyn un o'r camau canlynol:
 - os yw enwau a chyfeiriadau'r **holl** berchenogion (neu berchenogion eraill, os ydych chi'n berchen ar ran o'r tir) yn hysbys, dylech roi hysbysiad iddynt yn y ffurf a ddangosir yn yr HYSBYSIAD O APÊL O DAN REOLIAD 13(5) ATODEDIG. Llenwch **dystysgrif B** a'i hanfon yn ôl, ynghyd â chopi o'r Hysbysiad o dan Reoliad 13(5).
 - os yw enwau a chyfeiriadau rhai perchenogion, ond **nid yr holl** berchenogion yn hysbys, dylech lenwi **tystysgrif C** a'i hanfon yn ôl, ynghyd â chopi o'r Hysbysiad o dan Reoliad 13(5).
 - os nad yw enwau a chyfeiriadau unrhyw rai o berchenogion y tir yn hysbys, llenwch **dystysgrif D**.

Lle mae'n rhaid i chi roi hysbysiad i berchenogion, a bod eu henwau a'u cyfeiriadau yn hysbys, gellir cyflwyno'r Hysbysiad drwy ei roi iddynt yn bersonol, ei adael yn eu cyfeiriad, neu ei anfon drwy ddefnyddio gwasanaeth post cofrestredig neu wasanaeth dosbarthiad wedi'i gofnodi. Os oes rhaid cyflwyno'r hysbysiad i gwmni neu gorff corfforaethol arall, rhaid iddo fod wedi'i gyfeirio at ysgrifennydd neu glerc y cwmni yn ei swyddfa gofrestrdig neu ei brif swyddfa, drwy unrhyw un o'r tri dull uchod.

Mae unrhyw un sy'n mynd ati yn fwriadol neu'n ddi-hid i roi tystysgrif sy'n cynnwys unrhyw ddatganiad sy'n ffug neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol yn atebol i dalu dirwy o gael ei euogfarnu.

**DEDDF CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1990
RHEOLIADAU CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1992**

HYSBYSIAD O APÊL O DAN REOLIAD 13(5)

Ystyr **hysbysiad i'w roi i berchennog** ('perchennog') yw unigolyn â buddiant rhydd-ddaliadol neu denantiaeth sydd â chyfnod sy'n weddill o ddim llai na 7 mlynedd.

Rwyf yn rhoi hysbysiad fod:

(a).....

ar ôl gwneud cais i **(b)**.....

am Ganiatâd Sylweddau Peryglus/parhad Caniatâd Sylweddau Peryglus* i

(c).....

yn (d).....

.....

.....

yn apelio i Weinidogion Cymru *yn erbyn penderfyniad

(b).....

*neu fethiant **(b)** i
roi hysbysiad o benderfyniad.

Os dymunwch wneud sylwadau ynglŷn â'r apêl hon, ysgrifennwch at yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, **o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad hwn.**

Llofnodwyd:

.....

* **ar ran:** **Dyddiad:**

*dileer fel bo'n briodol

NODIADAU

- (a) Enw'r Apelydd
- (b) Enw'r Awdurdod Sylweddau Peryglus (HSA) y gwnaed y cais iddo
- (c) Manylion byr am y caniatâd a geisir
- (d) Cyfeiriad neu leoliad safle'r cais

**DEDDF CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1990
RHEOLIADAU CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1992
TYSTYSGRIF O DAN REOLIAD 13(4)**

TYSTYSGRIF A

Rwyf yn ardystio:

Ar ddechrau'r cyfnod 21 diwrnod yn dod i ben gyda dyddiad yr apêl gysylltiedig, nid oedd unrhyw un, ac eithrio'r apelydd, yn berchennog (a) ar unrhyw ran o'r tir y mae a wnelo'r apêl ag ef.

Llofnodwyd:

.....

***ar ran:** **Dyddiad:**

* Dileer fel bo'n briodol

NODYN

(a) ystyr 'perchennog' yw unigolyn â buddiant rhydd-ddaliadol neu denantiaeth sydd â chyfnod sy'n weddill o ddim llai na 7 mlynedd.

**DEDDF CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1990
RHEOLIADAU CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1992
TYSTYSGRIF O DAN REOLIAD 13(4)**

TYSTYSGRIF B

Rwyf yn ardystio:

Rwyf i/Mae'r apelydd wedi* rhoi'r hysbysiad gofynnol i bawb arall a oedd, ar ddechrau'r cyfnod o 21 diwrnod yn dod i ben gyda dyddiad yr apêl gysylltiedig, yn berchennog (a) unrhyw ran o'r tir y mae a wnelo'r apêl ag ef, fel y rhestrir isod.

Enw'r Perchennog (Perchenogion) a'r cyfeiriad y cyflwynwyd hysbysiad iddo:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Dyddiad cyflwyno'r hysbysiad:

.....

Llofnodwyd:

.....

*ar ran: Dyddiad:

*dileer fel bo'n briodol

NODYN

(a) ystyr 'perchennog' yw unigolyn â buddiant rhydd-ddaliadol neu denantiaeth sydd â chyfnod sy'n weddill o ddim llai na 7 mlynedd.

**DEDDF CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1990
RHEOLIADAU CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1992
TYSTYSGRIF O DAN REOLIAD 13(4)**

TYSTYSGRIF C

Rwyf yn ardystio:

Ni allaf i/Ni all yr apelydd* gyflwyno Tystysgrif A neu B mewn perthynas â'r apêl gysylltiedig. Rwyf i/Mae'r Apelydd* wedi rhoi'r hysbysiad gofynnol i'r unigolion a bennir isod, sef yr unigolion a oedd ar ddechrau'r cyfnod 21 diwrnod yn dod i ben gyda dyddiad yr apêl, yn berchennog(berchenogion) ar unrhyw ran o'r tir y mae a wnelo'r apêl ag ef.

Enw(Enwau) y Perchennog (Perchenogion) a'r cyfeiriad y cyflwynwyd hysbysiad iddo:

.....
.....
.....
.....
.....
.....

Dyddiad cyflwyno'r hysbysiad:

Rwyf i/Mae'r apelydd* wedi cymryd pob cam rhesymol sydd ar gael i mi/iddo/iddi* i ganfod enwau a chyfeiriadau perchennogion eraill (a) y tir, neu ran ohono, ond nid wyf/nid yw* wedi gallu gwneud hynny. Roedd y camau hyn fel a ganlyn (b):

.....
.....
.....
.....

Llofnodwyd:

* **Ar ran:** **Dyddiad:**

* dileer fel bo'n briodol



NODIADAU

- (a) ystyr 'perchennog' yw unigolyn â buddiant rhydd-ddaliadol neu denantiaeth sydd â chyfnod sy'n weddill o ddim llai na 7 mlynedd.
- (b) rhwch ddisgrifiad o'r camau a gymerwyd.

DEDDF CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1990 RHEOLIADAU CYNLLUNIO (SYLWEDDAU PERYGLUS) 1992 TYSTYSGRIF O DAN REOLIAD 13(4)

TYSTYSGRIF D

Rwyf yn ardystio:

Ni allaf i/Ni all yr apelydd* gyflwyno Tystysgrif A mewn perthynas â'r apêl gysylltiedig. Rwyf i/Mae'r Apelydd wedi cymryd pob cam rhesymol sy'n agored i mi/iddo ef/iddi hi* i ganfod enwau a chyfeiriadau pawb arall a oedd, ar ddechrau'r cyfnod 21 diwrnod yn dod i ben gyda dyddiad yr apêl, yn berchenogion (a) ar unrhyw ran o'r tir y mae a wnelo'r apêl ag ef, ond nid wyf/nid ydyw* wedi gallu gwneud hynny. Roedd y camau hyn fel a ganlyn:

(b).....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Llofnodwyd:

* ar ran: Dyddiad:
*dileer fel bo'n briodol

NODIADAU

- (a) ystyr 'perchennog' yw unigolyn â buddiant rhydd-ddaliadol neu denantiaeth sydd â chyfnod sy'n weddill o ddim llai na 7 mlynedd.
- (b) rhwch ddisgrifiad o'r camau a gymerwyd.